

❖ **BAROD AM Y NADOLIG?**

Credwch neu beidio, cyn Sul cyntaf yr Adfent roedd pobl wedi dechrau gofyn i mi, ‘Ydych chi’n barod am y Nadolig?’ Un o’r ystrydebau hynny, mae’n rhaid i mi gyfaddef, sy’n mynd o dan fy nghroen. A ninnau bellach ar drothwy’r wyl, dewch inni ystyried ymateb un wraig arbennig iawn i’r holl bethau oedd yn digwydd o’i chwmpas y Nadolig cyntaf hwnnw.

Yn sydyn ymddangosodd gyda’r angel dyrfa o’r llu nefol, yn moli Duw gan ddweud:

“Gogoniant yn y goruchaf i Dduw,
ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith y
rhai sydd wrth ei fodd.”

Wedi i’r angylion fynd ymaith oddi wrthynt i’r nef, dechreuodd y bugeiliaid ddweud wrth ei gilydd, “Gadewch inni fynd i Fethlehem a gweld yr hyn sydd wedi digwydd, y peth yr hysbysodd yr Arglwydd ni amdano.” Aethant ar frys, a chawsant hyd i Fair a Joseff, a’r baban yn gorwedd yn y preseb; ac wedi ei weld mynegasant yr hyn oedd wedi ei lefaru wrthynt am y plentyn hwn. Rhyfeddodd pawb a’u clywodd at y pethau a ddywedodd y bugeiliaid wrthynt; ond yr oedd Mair yn cadw’r holl bethau hyn yn ddiogel yn ei chalon ac yn myfyrio arnynt. (Luc 2:13–19)

Do, yng nghanol y berw a’r syndod a’r rhyfeddod; yng nghanol y comosiwn, y canu a’r dathlu, roedd Mair yn *cadw’r holl bethau hyn yn ddiogel yn ei chalon ac yn myfyrio arnynt*. Mae’n taith ninnau i gyfeiriad Bethlehem wedi cychwyn, ac ar un ystyr fe fydd hi’n daith dipyn anos na thaith y sawl a’i teithiodd flynyddoedd maith yn ôl. Mae yna fwy a mwy o bethau’n tynnu sylw; mwy o rwystrau ar lwybr gwir addoliad. Mwy o achos siniciaeth, amheuaeth a dadrithiad.

Cawsom ni ein dal gan brysurdeb y paratoadau, y pererindodau siopa, yr ysgrifennu, y postio, y glanhau. Ac mi allwn fynd ymlaen ac ymlaen.

Cyn i bethau fynd allan o bob rheolaeth, carwn ofyn a ydyw hi mewn gwirionedd mor amhosibl i ni rannu rhyw gymaint o ysbryd myfyrdodol Mair yng nghanol y cynnwrf sydd o’n chwmpas? Mae tawelwch Mair yn llefaru cyfolau am y pwysigrwydd o adael i’r digwyddiad droi’n brofiad personol dwfn. O, ie, prynwch, rhowch a derbyniwch ar bob cyfrif, ond peidiwch da chi â chredu eich bod o wneud hynny yn barod ar gyfer y Nadolig. Gadewch i’r Gwir oleuni sy’n dod i’r byd gael cyfle yn eich bywyd chi i droi pob nos yn ddydd...

Yng ngeiriau W. Rhys Nicholas...

Tyrd atom ni, O Grëwr pob goleuni,
tro di ein nos yn ddydd.

Olaf Davies